# Pwyllgor cynllunion a gorchmynion

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2010.

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, W. T. Hughes, K. Hughes, Thomas H. Jones, R. L. Owen, Eric Roberts, Hefin W. Thomas, J. P. Williams. |
| **Hefyd yn bresennol:** | **Aelodau Lleol** - Y Cynghorwyr C. McGregor (6.2); Gwilym o. Jones (6.3). |
| **Wrth law :** | Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwywr Cynllunio (MG)<br>Cynorthwywr Cynllunio (EH)<br><br>**Priffyrdd :**<br><br>Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) (JRWO),<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE),<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim. |

---

## 1 Ymddiheuriadau

Ni chafwyd yr un ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2 Datgan o ddiddordeb

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb fel y cawsant eu cofnodi dan yr eitemau perthnasol.

## 3 Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2010 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4 Ymweliad safle

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion yr Ymweliad Safle a wnaed ar 21 Gorffennaf 2010.

## 5 Ceisiadau a ohiriwyd

Nid oedd unrhyw geisiadau ar y rhaglen a fyddai'n cael eu gohirio.

## 6 Ceisiadau yn codi o’r cofnodion

**6.1 - 22C183B - Cais ôl-ddyddiol am gynlluniau diwygiedig i godi annedd a ganiatawyd yn flaenorol dan gyfeirnod cais cynllunio 22C183A/DA ar dir yn Tai Bach, Llanddona.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar 7 Gorffennaf 2010 ar gais yr Aelod Lleol pryd
*"PENDERFYNWYD gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf i ganiatáu i Swyddogion ddrafftio amod yn gwahardd yr ymgeisydd rhag cau llwybr troed ger y safle."*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio nad oedd modd cynnwys amod ar y rhybudd o'r penderfyniad cynllunio oherwydd nad yr ymgeisydd yw perchennog y llwybr troed. Dywedodd y byddai'n opsiwn cynnwys nodyn er gwybodaeth ar y penderfyniad h.y.:
*"Mae llwybr troed honedig i'r de orllewin o safle'r cais. Efallai y bydd angen caniatâd dan ddarpariaethau deddfwriaethol ar wahân ar gyfer unrhyw fwriad i wyro, cau neu ddiwygio'r llwybr ac nid yw'r caniatâd cynllunio hwn yn rhoi caniatâd o'r fath. Cynghorir yr ymgeisydd yr honnir bod y datblygiad wedi ei adeiladu dros wasanaethau'r eiddo a ganlyn, sef Ffin y Ffos, Dorlan a glan rhyd. Ni nodwyd unrhyw wasanaethau gan Adain Adeiladu'r Cyngor hwn ond efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno cysylltu ag ymgynghorydd proffesiynol ar y mater hwn."*
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y llwybr wedi ei glirio bellach.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas yn derbyn bod y swyddogion wedi gwneud eu gorau i ddatrys y mater ac roedd yn fodlon cynnig rhoi hawl i weithredu i'r swyddogion fel y gellir sefydlu pwy yw perchennog y llwybr. Yn ogystal, gofynnodd yn daer i'r Adran Briffyrdd fonitro'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unwaith os oedd yn ymddangos bod unrhyw broblem gyda'r llwybr.

Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Thomas gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a rhoi hawl i weithredu i Swyddogion mewn perthynas â materion perchenogaeth tir.**

**6.2 - 26C100A - Codi adeilad ffrâm porthal ar gyfer storio a chynnal tractorau a pheiriannau amaethyddol yn Tan y Coed, Marianglas.**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd William T. Hughes. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Gwyn Hughes o Gwyn Hughes Associates a oedd yn cynrychioli'r ymgeisydd i annerch y cyfarfod. Diolchodd Mr. Hughes i'r Cadeirydd am y cyfle i annerch y cyfarfod. Dywedodd mai diddordeb yr ymgeisydd yw casglu a thrwsio tractorau a pheiriannau amaethyddol hynafol a'u harddangos mewn sioeau.

Byddai'r sied yn cael ei defnyddio'n unig yn gysylltiedig â hobi'r ymgeisydd fel bod modd cadw'r peiriannau mewn amgylchedd diogel dan un to ac allan o'r tywydd. Roedd yr ymgeisydd yn fwy na bodlon derbyn amodau ar y caniatâd cynllunio i sicrhau:

1. na fyddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio i ddibenion masnachol;
2. inswleiddio digonol rhag swn yn yr adeilad fel nad yw trigolion cyfagos yn cael eu heffeithio gan ddefnydd o'r adeilad;
3. peidio â thorri unrhyw un o'r coed neu'r gwrychoedd o amgylch y safle;
4. gwella'r briffordd gyfagos yn unol â gofynion yr Adran Priffyrdd.

Atgoffodd yr aelodau y cynhaliwyd ymweliad safle pryd fyddai'r Aelodau wedi gweld olion o'r hen ddefnydd a wnaed o'r safle. Hyd at 1992, roedd y safle yn cael ei ddefnyddio fel Depo Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd a chan Gyngor Sir Ynys Môn cyn hynny. Roedd cwt "nissen" mawr ar y safle bryd hynny ac mae'r sylfaeni yn dal i fod yno. Wedi hynny, rhoddwyd carafan breswyl ar y safle ynghyd â sied arall. Dymchwelwyd y sied a chliriwyd y safle gan yr ymgeisydd cyfredol pan brynwyd y safle ddwy flynedd yn ôl. Mae hawl gyfreithiol i osod y garafan ar y tir a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar y safle ar gyfer byngalo yn 1992 er bod cryn bosibilrwydd bod y caniatâd hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn.

Ychwanegodd Mr. Hughes for Marianglas yn bentref gwasgaredig a bod Tan y Coed yn rhan o'r pentref. Mae rhwng canol y pentref o gwmpas y comin a chlwstwr o ddatblygiadau sy'n cynnwys pump o dai, tafarn y pentref (y Parciau Arms) a thri o feysydd carafanau gwyliau mawr. Yn ystod yr ymweliad â'r safle, byddai'r Aelodau hefyd wedi gweld bod y safle mewn pant ac wedi ei amgylchynu gan wrychyn tal a choed rhwng y safle a'r briffordd. Oherwydd hynny, ni fyddai'r adeilad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd o'i gwmpas.

Wrth gloi, dywedodd Mr. Hughes nad oedd yn gallu cytuno gydag argymhelliad y Swyddog i wrthod y cais. Dywedodd y byddai'r aelodau wedi gweld ar yr ymweliad â'r safle:-

5. nid yw'r safle mewn ardal wledig - yn hytrach mae'n rhan o bentref Marianglas;
6. ni fyddai'r adeilad yn cael effaith andwyol ar y dirwedd oherwydd bod y safle mewn pant ac wedi ei guddio gan goed a gwrychyn;
7. mae'r safle yn un a ddefnyddiwyd yn flaenorol, mae'n safle tir llwyd ac felly mae'n addas ar gyfer ei ddatblygu yn unol â pholisïau cynllunio'r Cynulliad a'r Cyngor.

Anogodd yr aelodau yn gryf i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y gwrthwynebiad i'r adeilad yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn y cefn gwlad ac o fewn ardal sy'n rhan o Ardal Tirwedd Arbennig ac y byddai'n cael ffaith andwyol ar fwynderau'r ardal a'r dirwedd. Ychwanegodd mai'r prif wrthwynebiad yn lleol oedd y gellid defnyddio'r adeilad i ddibenion masnachol a fyddai'n creu problemau i'r dyfodol. Cadarnhaodd ei fod yn argymell gwrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Clive McGregor, fel yr Aelod Lleol, fod y prif bryderon a oedd gan bobl leol yn ymwneud â'r defnydd o'r safle. Mae'r cais yn un am adeilad mawr ac mae pryder y gellid ei ddefnyddio i ddibenion masnachol. Dywedodd ei fod wedi mynegi sylwadau'r bobl leol ac y byddai'n derbyn unrhyw benderfyniad a wneid gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jim Evans, cadarnhaodd y Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy) y byddai gwelliannau i'r ddwy fynedfa yn cael ei gynnwys fel amod yn y penderfyniad cynllunio pebai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Dangosodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio union leoliad y safle a chadarnhaodd ei fod yn safle tir llwyd. Ychwanegodd fodd bynnag fod polisïau perthnasol yn ymwneud â safleoedd tir llwyd ac y byddai angen i'r tir fod yn yr ardal iawn.

Dywedodd y Cynghorydd John Chorlton fod y safle cyfredol yn ymddangos yn flêr ac y gallai datblygu'r safle gyfrannu at dacluso'r ardal. Dywedodd bod y safle wedi ei ddefnyddio fel depo'r Cyngor a bod caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer byngalo. Roedd yn credu felly y byddai'n anodd iddo ef wrthod y cais ar yr amod fod yr amodau y cyfeiriodd Mr. Gwyn Hughes atynt yn cael eu cynnwys ar y rhybudd o benderfyniad.

Roedd y Cynghorydd Ken Hughes yn cytuno gyda'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Chorlton a dywedodd ei fod yn ansicr ynghylch y cais oherwydd bod y safle yn safle tir llwyd. Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas yn cytuno gyda'r sylwadau hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Eurfryn Davies ei fod wedi ymweld â'r safle ac wedi gweld drosto'i hun fod y cyfan o'r safle mewn pant. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog.

Gofynnodd y Cynghorydd John Penri Williams am eglurhad ynghylch y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar Gytundeb Adran 106 ynghylch dim defnydd masnachol a gofynnodd a fyddai modd i'r ymgeisydd wedyn ofyn i gael dileu'r amod hwnnw. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y byddai'r amodau yn rhan o'r penderfyniad cynllunio ac nid Cytundeb Adran 106. Cadarnhaodd y gallai'r ymgeisydd, ar unrhyw adeg, ofyn i gael dileu'r amod. Cynghorodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol os oedd yr Aelodau yn dymuno cymeradwyo'r cais y dylid ei ohirio a dod ag ef yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf i gytuno ar amodau.

Wrth gloi, dywedodd yr Aelod Lleol fod y safle wedi ei ddefnyddio i ddibenion masnachol, fel busnes trwsio cerbydau, hyd at ddwy flynedd yn ôl. Fodd bynnag, cadarnhaodd mai mater i'r Pwyllgor Cynllunio fyddai gwneud penderfyniad ar y cais.

Eiliodd y Cynghorydd Hefin Thomas gynnig y Cynghorydd Eurfryn Davies y dylid cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y swyddog, a chyda'r amodau a amlinellir gan Mr. Gwyn Hughes.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

Derbyn adroddiad y Swyddog a'r argymhelliad i wrthod - Y Cynghorwyr Lewis Davies, J. Arwel Roberts, Eric Roberts, John Penri Williams **(4)**

Cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog - Y Cynghorwyr J. Chorlton, Eurfryn Davies, Jim Evans, Ken Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, Hefin Thomas **(7)**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**

Y rhesymau a roddwyd dros gymeradwyo'r cais oedd:
- mae'r safle yn safle tir llwyd;
- ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr ardal o'i gwmpas;
- bod amodau mewn perthynas â dim defnydd masnachol, gwelliannau i'r mynedfeydd a dim torri coed ac ati (fel yr amlinellir ym mhwynt 7 yr adroddiad y swyddog) yn cael eu cynnwys fel rhan o rhybudd o benderfyniad.

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf i ganiatáu cyfle i swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau dros gymeradwyo'r cais.**

**6.3 - 32C68J - Newid defnydd o ran o gae chwarae i lecyn parcio ceir yn Ysgol Caergeiliog, Caergeiliog**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Eurfryn G. Davies. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Gwneir y cais ar dir y Cyngor ac, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2010, penderfynodd yr Aelodau ohirio roi sylw i'r cais fel bod modd ymweld â'r safle. Ymwelwyd â'r safle ar 21 Gorffennaf 2010.

Nododd yr aelodau fod 19 o lecynnau parcio ar y safle ar hyn o bryd (gyda 12 o lecynnau i bobl anabl ar dir yr ysgol na fydd yn newid). Cynigir 64 o lecynnau ychwanegol ar ran o'r caeau chwarae sydd yno ar hyn o bryd, gan wneud cyfanswm o 83 o lecynnau parcio.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y Swyddogion yn argymell gwrthod oherwydd bod asesiad llecyn agored ar gyfer Caergeiliog wedi dangos bod prinder o lecynnau agored yn y pentref ac er gwaethaf nifer o geisiadau, nid yw'r ysgol wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â'r dewisiadau eraill posib sydd ar gael i ddefnyddio ceir preifat a thacsis i ddod â phlant i ac o'r ysgol e.e. nid yw'n glir pa wasanaethau bws, os o gwbl, sy'n rhedeg nac ychwaith a ystyriwyd strategaethau rhannu lifft.

Diolchodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Gwilym O. Jones i'r aelodau am ymweld â'r safle ac am y cyfle i annerch y cyfarfod. Roedd yn credu bod yr ymweliad â'r safle wedi digwydd ar amser amhriodol oherwydd bod y broblem gyda thagfeydd traffig yn amlwg rhwng 8.10am a 9.00am a 15.10pm a 16.00pm pan mae disgyblion yn cyrraedd ac yn gadael yr ysgol. Disgrifiodd y sefyllfa yn ystod yr amseroedd hyn fel un o anhrefn. Rhoddodd y cefndir i sefydlu'r ysgol a dywedodd ers i'r ysgol ddod yn ysgol sefydledig ar ddiwedd y 1990au, bu cynnydd cyson yn nifer y disgyblion ac, ar hyn o bryd, mae cyfanswm oddeutu 400 o ddisgbyglion yn mynd i'r ysgol er nad yw'r ffigwr hwnnw wedi ei gadarnhau. Disgrifiodd y ffordd i'r ysgol fel lôn wledig gyda cheir yn parcio ar y ddwy ochr ac yn gorlifo ar yr A5 yn y ddau gyfeiriad. Atgoffodd yr aelodau bod damwain ffordd angheuol wedi digwydd yn agos i Swyddfa'r Post rai blynyddoedd yn ôl a bod ceir yn awr yn parcio yn y rhan hon o'r ffordd ac yn rhwystro gwelededd. Dygodd sylw at y ffaith nad oes cyfeiriad at ddiogelwch ffyrdd yn adroddiad y swyddog a dywedodd bod yr Heddlu a'r Adran Priffyrdd yn ymwybodol o'r broblem ac yn cefnogi gwelliannau. Pwysleisiodd na fedr y sefyllfa gyfredol barhau. Ychwanegodd nad yw safle'r cais ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned at atgoffodd yr Aelodau fod cae chwarae yn Nhre Ifan. Roedd yn cytuno, yn ddelfrydol, y dylid cyfyngu ar y nifer o geir preifat sy'n teithio i ac o'r ysgol ond esboniodd bod disgyblion o bob rhan o'r Ynys yn mynd i ysgol Caergeiliog. Dywedodd bod y sefyllfa gyfredol yn ddifrifol a rhoes ganmoliaeth i'r ddynes sy'n cynorthwyo'r plant i groesi'r lôn sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch y

plant hynny sy'n cerdded i ac o'r ysgol. Dywedodd y gallai problemau difrifol godi petai angen i gerbyd argyfwng megis ambiwlans neu injan dân fynd i'r ardal yn ystod y cyfnodau prysur y cyfeiriwyd atynt ynghynt. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod wedi derbyn gohebiaeth ynghylch gwelliannau i'r A55 pryd y bydd mwy o draffig yn anorfod yn mynd drwy'r pentrefi gwledig. Pwysleisiodd ei bryderon fel yr Aelod Lleol ynghyd â phryderon yr Heddlu a'r Adain Priffyrdd ynghylch materion diogelwch ffyrdd.

Dywedodd y Cynghorydd John Chorlton ei fod yn cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Jones a ddisgrifiodd y sefyllfa fel un o anhrefn llwyr. Roedd yn cydnabod bod yr ysgol wedi bod yn amharchus trwy beidio ag ymateb i ymholiadau gan swyddogion ond roedd o'n credu bod angen brys am lecynnau parcio yn yr ysgol. Dywedodd bod y lôn wledig yn arwain at dai a ffermydd a'i bod yn cael ei ddefnyddio fel llwybr tarw i'r depo ar ddiwedd y lôn. Nid oedd yn gallu gweld y rhesymau dros wrthod oherwydd nad yw cae'r ysgol ar gael i ddefnydd cymunedol ac ni ellir gorfodi unrhyw un i roi lifft i blentyn person arall i'r ysgol. Atgoffodd yr Aelodau bod Cae Chwarae Tre Ifan wedi derbyn £5,000 yn ddiweddar tuag at ei ddatblygu. Roedd ei brif bryderon yn ymwneud â diogelwch.

Dywedodd y Cynghorydd Ken Hughes ei fod o wedi deall fod y cae ar gael i'w ddefnyddio gan y pentref. Credai bod angen diogelu llecynnau agored. Roedd yn anfodlon ynglyn â'r diffyg ymateb gan yr ysgol a chynigiodd y dylid gwrthod y cais.

Roedd y Cynghorydd Lewis Davies yn cytuno gyda sylwadau'r Cynghorydd Hughes. Roedd o wedi syfrdanu nad oedd yr ysgol wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth ac atgoffodd yr aelodau nad oedd y cynnig hwn yn cydymffurfio gyda CNT 16 ac 18 a'i fod yn groes i Bolisi 16 Cynllun Lleol Ynys Môn. Eiliodd y cynnig y dylid gwrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod wedi darllen yr adroddiad ac wedi gwrando ar yr Aelod Lleol. Roedd o'n credu bod mwy na digon o dir agored yn yr ardal ac y dylid rhoddi'r pwyslais ar warchod bywydau plant. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais. Eiliodd y Cynghorydd John Chorlton y cynnig.

Wrth gloi, dygodd yr Aelod Lleol sylw at y ffaith bod cae mawr ym mherchenogaeth y Cyngor i'r de o'r ysgol ac o'r herwydd nid oedd y ddadl ynghylch diffyg llecynnau agored yn rhesymol. Credai y dylai synnwyr cyffredin ennill y dydd yn yr achos hwn a bod diogelwch yn bwysicach o lawer na pholisïau cynllunio.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio nad oedd unrhyw dystiolaeth ynglyn â nifer y plant yn yr ysgol a bod yr ysgol wedi dewis peidio ag ymateb i ymholiadau'r Swyddogion Cynllunio. Cwestiynodd a fyddai darparu llecynnau ychwanegol yn datrys y broblem oherwydd mai posib y bydd cynnydd pellach yn nifer yr ysgolion a fydd yn mynychu'r ysgol yn y blynyddoedd nesaf. Atgoffodd yr Aelodau os oeddynt yn cymeradwyo'r cais yna byddant yn gwneud hynny heb i'r ysgol fod wedi darparu unrhyw dystiolaeth.

Dyma oedd y bleidlais:-

| | | |
|---|---|---|
| I gymeradwyo'r cais | - Y Cynghorwyr J. Chorlton, W. T. Hughes, R. L. Owen, H. Thomas | **(4)** |
| I wrthod y cais | - Y Cynghorydd Lewis Davies, Jim Evans, Ken Hughes, T. H. Jones, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, J. Penri Williams. | **(7)** |

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog a gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**7 Ceisiadau economaidd**

Ni chafodd yr un cais economaidd ei gyflwyno i'w benderfynu arno gan y Pwyllgor hwn.

**8 Ceisiadau am dai fforddiadwy**

Ni chafodd yr un cais am dai fforddiadwy ei gyflwyno ar gyfer ei benderfynu arno gan y Pwyllgor hwn.

**9 Ceisiadau sy'n tynnu'n groes**

Nid oedd unrhyw geisiadau sy'n tynnu'n groes wedi eu cynnwys fel rhan o Raglen y cyfarfod.

**10 Cynigion datblygu a gyflwynwyd gan gynghorwyr a swyddogion**

**10.1 - 30C279E - Ail-leoli 4 carafan statig a gymeradwywyd dan ganiatâd cynllunio 30C279 gyda dwy garafan statig ychwanegol ynghyd â newid defnydd tir ar gyfer lleoli carafanau teithiol a phebyll yn Safle Carafanau Min y Ffrwd, Brynteg.**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Elwyn Schofield oedd ddim yn bresennol yn y cyfarfod.*

Cyflwynwyd adroddiad ar y cais i'r Pwyllgor gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i Aelod ac yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn. Cafodd y cais ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â'r gofyniad dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae gan y safle carafanau ddefnydd cyfreithlon ar gyfer 18 o garafanau teithiol rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn galendr ynghyd ag 19 o garafanau statig i'w defnyddio i bwrpas gwyliau.

Mae'r cais yn ymwneud ag ail-leoli 4 uned statig a ganiateir dan ddarpariaethau cais cynllunio 10C279 ynghyd â dwy uned ychwanegol i gae sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer carafanau teithiol yn y maes carafanau. Mae'r cais hefyd yn ymwneud â newid defnydd cae i ffurfio rhan o'r safle carafanau ac ail-leoli 7 o garafannau teithiol o'r safle carafanau a chaniatad ar gyfer 8 pabell ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hefin Thomas, cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio nad oedd angen i'r cynnig gael i gynnwys o fewn y libart. Dywedodd bod hyn yn ymestyn y safle i raddfa fechan ond bod hyn yn cydymffurfio gyda'r polisïau presennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau a oedd ynghlwm wrtho.**

**10.1 - Altro'r fynedfa a gymeradwywyd eisoes dan ganiatâd cynllunio 36C283A ger Ael y Bryn, Llangristiolus**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cais i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn gweithio yn Adran Gynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor Sir. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â'r gofyniad dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cynnig yn ymwneud ag altro'r fynedfa a gymeradwywyd eisoes a oedd yn fynedfa sengl i'r annedd arfaethedig ar gae gerllaw. Roedd y cynnig diwygiedig dan sylw yn ymwneud â dwy fynedfa ar wahân - y naill i'r ty a'r llall i'r cae gerllaw. Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yr Adran Briffyrdd yn fodlon gyda'r fynedfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho.**

**11 Gweddill y ceisiadau**

**11.1 - 12LPA854C/EIA/CC - Atgyweirio'r pier a darparu pontwn glanio ym Mhier Biwmares, Biwmares.**

Mae'r datblygiad hwn yn ymwneud â thir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac mae'r cais yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Mae'r cais yn cynnwys:-

Adnewyddu'r decin; adfer y pier i'w led blaenorol; cryfhau'r colofnau sy'n cynnal y parapet; adnewyddu'r ciosg a'r gysgodfan; darparu pontwn glanio; cynhaliaeth a cholofnau ychwanegol.

Roedd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd R. L. Owen, yn croesawu'r cynnig a diolchodd i'r swyddogion perthnasol am eu hymdrechion i sicrhau cyllid ar gyfer y gwelliannau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau a oedd ynghlwm wrtho.**

**11.2 - Codi estyniad i greu llecyn hyfforddi codi pwysau yng Nghanolfan Chwaraeon Millbank, Lôn Garreglwyd, Caergybi**

*Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr J. Chorlton, K. Hughes ac J. Arwel Roberts ac ni chymerodd y tri ran yn y drafodaeth na phleidlais ar y cais.*

Mae'r cais yn ymwneud â thir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor sydd wedi ei leoli o fewn cae chwaraeon Millbank, Caergybi ac sydd ar hyn o bryd yn cynnwys adeilad cyfleusterau chwaraeon pêl-droed a llecynnau hyfforddi eraill. Mae'r cais hefyd yn ymwneud â chodi estyniad i'r adeilad presennol er mwyn creu llecyn hyfforddi codi pwysau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho.**

**11.3 - 19LPA925/CC - Codi estyniad y tu cefn i 87 Tan yr Efail, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais hwn gan yr Awdurdod Lleol ac roedd yn ymwneud â chodi estyniad y tu cefn i'r eiddo er mwyn darparu llety ychwanegol ar y llawr gwaelod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho.**

**11.4 - 29LPA913A/CC - Gosod gwaith trin carthion ar dir yn Ysgol Frwd Win, Llanfaethlu**

*Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr Eurfryn Davies a Ken Hughes ac ni chymerodd y ddau ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Cyflwynwyd y cais gan yr Awdurdod Lleol ac roedd y cynnig yn ymwneud â gosod gwaith trin carthion newydd dan y ddaear yn lle'r gwaith trin carthion presennol sydd uwchben y ddaear.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau a oedd ynghlwm wrtho.**

**11.5 - 31LPA68H/CC - Codi ffens 1.8m o uchder o flaen Ysgol Gynradd Llanfairpwll, Llanfairpwll**

*Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr Eurfryn Davies a J. Penri Williams a'r Swyddog Rheoli Datblygu (RE) ac ni chymerodd y tri ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Mae'r cais yn ymwneud â thir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac mae'r cynnig yn ymwneud â chodi ffens 1.8m o uchder o flaen yr ysgol. Y bwriad yw atal pobl rhag tresbasu y tu allan i oriau'r ysgol a diogelu llecyn chwarae er budd disgyblion yr ysgol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau a oedd ynghlwm wrtho a chaniatáu i'r swyddogion hawl i weithredu pan ddaw'r cyfnod hysbysebu i ben ar 2 Awst 2010.**

**11.6 - 34LPA927/CC - Amrywio amod (17) ar gais cynllunio 34C466A i ganiatáu newid defnydd adeilad o B1 (diwydiant ysgafn) i B8 (storio a dosbarthu) er mwyn darparu llety ar gyfer archifau Cyngor Sir Ynys Môn yn Uned 3 hen Safle Cunliffe, Llangefni**

*Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr J. Chorlton, E. G. Davies, Ken Hughes, T. H. Jones a Hefin Thomas ac ni chymerasant ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar y cais i'r Pwyllgor gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw'r ymgeisydd. Cyflwynir y cais i ddefnyddio'r adeilad ffrâm porthol cyfredol fel archifdy. Roedd y caniatâd gwreiddiol yn cyfyngu'r defnydd i B1 (diwydiant ysgafn) a hynny er budd mwynderau'r ardal.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod adroddiad amgylcheddol boddhaol bellach wedi'i dderbyn. Ychwanegodd nad oedd y cyfnod ymgynghori ynghylch priffyrdd yn dod i ben tan 31 Gorffennaf 2010 ac o'r herwydd ni fydd y rhybudd o benderfyniad yn cael ei gylchredeg tan ar ôl y dyddiad hwnnw.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho ac ar yr amod y daw'r cyfnod ymgynghori ynghylch priffyrdd i ben yn llwyddiannus ar 31 Gorffennaf 2010.**

**11.7 - 37LPA926/CC - Cadw'r gwaith a wnaed ar y talcen, gwneud gwaith altro ynghyd ag adeiladu mynediad newydd i gerddwyr yn Swyddfa'r Post, Siop Tai Newydd, Stryd Fawr, Brynsiencyn.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor gan mai'r Cyngor Sir yw'r ymgeisydd ac mae'r tir ym mherchenogaeth y Cyngor.

Mae'r cais yn ymwneud â chadw gwaith a wnaed ar dalcen yr adeilad ynghyd â chodi llwyfan a grisiau mynediad i Swyddfa'r Post.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r adroddiad gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho.**

**11.8 - 39LPA589N/CC - Codi is-orsaf 11kv ar dir yn Ysgol Uwchradd David Hughes, Porthaethwy**

*Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr Eurfryn Davies, Lewis Davies a John Penri Williams ac ni chymerodd y tri rhan yn y drafodaeth neu'r bleidlais ar y cais.*

Daethpwyd a'r cais i'r Pwyllgor gan mai'r Awdurdod Lleol sy'n ei gyflwyno a'r mater allweddol yw a ydyw lleoliad a dyluniad yr is-orsaf arfaethedig yn dderbyniol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais gyda'r amodau sydd ynghlwm wrtho.**

## 12 Materion eraill

Dim materion eraill wedi eu cynnwys ar y Rhaglen.

**13 Penderfyniadau dirprwyedig**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ynghylch y ceisiadau dirprwyedig a benderfynwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn.

**14 Apeliadau**

Nid oedd unrhyw apeliadau wedi eu cynnwys ar y Rhaglen.

Cychwynnodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.50pm

**Y Cynghorydd John Arwel Roberts**
**Cadeirydd**